

Canllawiau i Gofrestryddion Arbenigol ar Famolaeth

Allwedd

Gweithredu gan y Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu 

Gweithredu gan dîm gweithlu NWSSP 

Gweithredu gan y sefydliad lletyol 

Gweithredu	Nodiadau
1. Mae'r Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu (GPSR) yn hysbysu'r Goruchwyliwr Addysgol am y beichiogrwydd. 2. Mae GPSR yn hysbysu tîm Gweithlu Meddygol NWSSP am y beichiogrwydd.	
3. Mae tîm Gweithlu Meddygol NWSSP yn anfon copi o Bolisi Mamolaeth Felindre trwy'r e-bost at y Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu yn gofyn iddo/iddi lenwi'r ddogfen a'i dychwelyd gyda MATB1 15 wythnos cyn yr wythnos disgwyl esgor 4. Gweithlu Meddygol NWSSP yn hysbysu'r sefydliad lletyol am y beichiogrwydd 5. Gweithlu Meddygol NWSSP yn hysbysu Deoniaeth Cymru am y beichiogrwydd	
6. Dylai'r sefydliad lletyol gwblhau asesiad risg y fam feichiog yn Atodiad D. Dylai'r sefydliad lletyol gadw'r ddogfen ac anfon copi i NWSSP	<i>Dylai'r sefydliad lletyol weithredu yn unol ag unrhyw ddeilliannau o'r asesiad risg, neu'u trafod ag NWSSP os bydd angen (e.e. os oes angen cyfeiriad iechyd galwedigaethol</i>
7. Mae'r Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu yn cwblhau a dychwelyd Atodiad E at Weithlu Meddygol NWSSP 8. Mae'n amgáu MATB1	<i>Bydd y ffurflen MATB1 wreiddiol yn cael ei llungopïo gan AD a'i dychwelyd at y Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu.</i>
9. Ar ôl derbyn Atodiad E, bydd y Gweithlu Meddygol yn gwirio dyddiadau a hyd gwasanaeth er mwyn sicrhau bod yr hawl gywir yn cael ei rhoi	<i>Mae Atodiad B yn dangos yr hawliau cyflog mamolaeth</i>
10. Bydd tîm Gweithlu Meddygol NWSSP yn anfon llythyr at y Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu yn cadarnhau dyddiadau gadael ar gyfer cyfnod mamolaeth a hawliau o ran cyflog. 11. Bydd NWSSP yn cynghori ynghylch hawliau i wyliau blynyddol 12. Dylid anfon copi i'r sefydliad lletyol a'r adran gyflogres 13. Mae'n dychwelyd y ffurflen MATB1 wreiddiol	

14. Bydd y Cofrestrydd Arbenigol Meddyg
Teulu yn trafod a chytuno gyda'r
sefydliad lletyol pryd bydd gwyliau
blynyddol cronedig yn cael eu cymryd